Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

| | |
|---|---|
| **Teitl** | **Mabwysiadu Cynllun Llesiant 2023-28** |
| **Rhif yr Eitem** | **6** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **25 Ebrill 2023** |

**I ystyried a rhoi sylw ar y materion canlynol:**

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y BGC ym mis Chwefror ar y Cynllun Llesiant drafft, cafodd y Cynllun ei ddiwygio a'i ddosbarthu i'r pedwar partner statudol i'w gymeradwyo.

Cafwyd cadarnhad gan y pedwar - y Bwrdd Iechyd, CNC, y Cyngor a'r Gwasanaeth Tân ac Achub - bod y Cynllun wedi'i gymeradwyo. Derbyniwyd rhai sylwadau:

<u>Cyngor Sir Caerfyrddin</u>
"Mae'r Cyngor yn cefnogi Cynllun Llesiant y BGC a'r amcanion a'r camau a nodir. Byddem yn gofyn, o fewn y cynllun cyflawni a ddatblygir i wneud cynnydd yn erbyn y camau hyn, fod ystyriaeth barhaus yn cael ei roi i wreiddio cyfleoedd economi gylchol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu, yn enwedig o fewn yr amcanion 'Sicrhau economi gynaliadwy a cyflogaeth teg' ond hefyd ar draws y cynllun cyfan lle bo'n briodol."

<u>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</u>
"Dymunai'r Cynghorydd Broom a'r Cynghorydd Madge gofnodi eu diolch i Swyddogion mewnol ac allanol am eu holl waith caled yn tynnu'r Cynllun Llesiant at ei gilydd, croesawyd yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Madge ei fod yn pryderu am lai o adnoddau gyda sefydliadau partner, a allai rhwystro cynnydd yn erbyn yr hyn sydd i'w gyflawni a'r canlyniadau a amlinellwyd yn y Cynllun, a mynegodd bryderon hefyd ynghylch y cynnydd mewn tlodi ar draws y Sir a phobl oedrannus yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol oherwydd gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael. Ailadroddodd y bydd yr Awdurdod Tân yn parhau i gefnogi gwaith y BGC ynghylch hyn."

Cynigir bod y BGC yn derbyn y sylwadau hyn ac yn eu hymgorffori yn natblygiad y cynllun cyflawni fel y bo'n briodol.

Mae'r Cynllun Llesiant bellach wedi'i gynhyrchu yn ei fersiwn derfynol ac mae wedi'i atodi i'w fabwysiadu gan y BGC.

(Sylwer bod rhai mân newidiadau i'w gwneud i'r dyluniad ac i'r testun yn y fersiwn Gymraeg – bydd newidiadau perthnasol yn cael eu hamlinellu yn y cyfarfod.)

| | | |
|---|---|---|
| **I drafod a chytuno** | **A oes angen penderfyniad?** | **Oes** |
| **Cynigwyd gan** | | |

**Gwyneth Ayers, Tîm Cefnogi'r PSB**

# Y SIR GAERFYRDDIN A GAREM

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin
## Cynllun Llesiant 2023-28



5 WAYS

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
**Public Services Board**

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| BGC Sir Gaerfyrddin | 6 |
| Ein Partneriaethau yn Sir Gaerfyrddin | 7 |
| Myfyrio ar ein Cynllun Llesiant 2018-2023 | 9 |
| Amcanion a Nodau Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin | 11 |
| Y Cynllun Llesiant a pham rydym ei angen | 13 |
| Gofynion y Ddeddf | 13 |
| Nodau Llesiant Cenedlaethol | 13 |
| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | 14 |
| Pum Ffordd o Weithio | 14 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | 15 |
| Sut aethom ati i ddatblygu'r Cynllun Llesiant | 19 |
| Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin | 19 |
| Beth ddywedodd yr ALl wrthym | 19 |
| Pwy gyfrannodd at ddatblygu ein Cynllun Llesiant | 20 |
| Ein Hamcanion Llesiant | 21 |
| Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg | 21 |
| Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd | 24 |
| Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur | 27 |
| Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau | 29 |
| Helpu creu cymunedau diogel, amrywiol a dwyieithog | 32 |
| Camau Nesaf | 35 |
| Sefydlu'r strwythur cyflawni | 35 |




**Cysylltwch a'r Tîm Cefnogi BGC**


**E** BGC@sirgar.gov.uk
**T** 01267 234567

# Rhagair

Fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (BGC), rwyf yn falch o gyflwyno ein Cynllun Llesiant ac o fod yn rhan o'i ddatblygiad. Rwyf yn gyffrous am y cyfleoedd y bydd hynny'n eu creu i bob un ohonom sy'n byw a gweithio yn ein sir.



Mae'r BGC yn crynhoi at ei gilydd nifer o sefydliadau gwahanol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n gweithio gyda'i gilydd er lles Sir Gaerfyrddin. Mae gennym hanes hir a llwyddiannus o waith partneriaeth ac rydym yn parhau i adeiladu ar hynny. Rydym yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio, gan ganolbwyntio ein hegni, ymdrech ac adnoddau ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i gymunedau lleol. Byddwn yn parhau i wneud hynny trwy weithio gyda'n gilydd i ychwanegu gwerth at wasanaethau ein gilydd a byddwn yn edrych ar ffyrdd arloesol, newydd a gwahanol o weithio er mwyn cyflawni hyn.

Nid yw ein Cynllun yn golygu dal ati i wneud yr un peth. Rydym yn uchelgeisiol i'n sir. Rydym am weld gwelliannau go iawn yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein pobl.

Cafodd y Cynllun hwn, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ei ddatblygu yn dilyn ymgysylltu helaeth gyda'n cymunedau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r ymgysylltu hwn wedi adnabod pum amcan llesiant y byddwn yn canolbwyntio ein sylw arnynt trwy ein cyd-weithredoedd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf:

- Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
- Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau
- Helpu creu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol.

Rydym yn adeiladu partneriaethau cryfach o fewn ein cymunedau. Byddwn yn hyrwyddo cyd-gynhyrchu fel y gall pobl ddod at ei gilydd i helpu gwella eu bywydau a datrys y problemau sy'n bwysig iddyn nhw. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r perthnasoedd hyn fel bod yr ymglymu hwn yn blodeuo a bydd hynny'n helpu pob un ohonom i gyflawni'r amcanion a'r gweithredoedd yn ein Cynllun.

Rydym yn parhau ar daith hirdymor fydd yn llunio a llywio ein dyfodol dros yr 20 mlynedd nesaf neu ragor. Rydym yn benderfynol o wneud newidiadau cadarnhaol i greu gwahaniaeth gwirioneddol. Byddwn yn radical yn ein syniadau, yn effeithlon wrth ddefnyddio ein hadnoddau a byddwn yn cynnwys ein cymunedau yn y gwaith o lunio a chyflawni'r dyfodol gorau posib i bob un ohonom.

Rwyf yn gobeithio y byddwch am ymuno gyda ni a chwarae eich rhan.

Cyng Darren Price

Cadeirydd y BGC ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin

# BGC Sir Gaerfyrddin

Rhoddodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig ar draws Sir Gaerfyrddin i weithredu gyda'i gilydd a sefydlu BGC statudol.

Sefydlwyd BGC Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2016 ac mae'n gyfrifol am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.

Mae'n rhaid iddo wneud hynny trwy gynnal asesiad o lesiant yn y Sir ac yna paratoi Cynllun Llesiant sirol i amlinellu ei amcanion lleol, y camau y bwriada eu cymryd i'w cyflawni a sut maen nhw'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

**Mae aelodau BGC Sir Gaerfyrddin yn uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:**

Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

GIG Cymru / NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / University Health Board

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Department for Work & Pensions

National Probation Service

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys / Police and Crime Commissioner

CGGSG ~ CAVS

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Brecon Beacons National Park

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

colegsirgâr

Heddlu Police Dyfed-Powys

## Ein Partneriaethau yn Sir Gaerfyrddin

**Mae'r dirwedd Partneriaeth yn Sir Gaerfyrddin yn gwneud defnydd llawn o waith aml-asiantaeth, gyda chynrychiolaeth o ystod eang o bartner sefydliadau, gan gynnwys y trydydd sector, sy'n cydweithio i wella'r deilliannau ar gyfer ein trigolion.**

Mae ein partneriaethau wedi cyfrannu at ddatblygu'r amcanion a chyfrannu eu barn ar faterion allweddol y mae angen i'r BGC fod yn ymwybodol ohonynt wrth fynd ati i ddatblygu'r Cynllun Llesiant. Bydd cydweithio a gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r trefniadau cyflawni ar draws y sir a bydd y partneriaethau yn rhan annatod o gyflawni amcanion y BGC.

Mae'n hollbwysig yn Sir Gaerfyrddin fod gan ein partneriaethau aml-asiantaeth rôl barhaus yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r prif faterion a chyfleoedd a amlygir yn yr Asesiad Llesiant, yn eu plith rai na fyddant o reidrwydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion y BGC ond fydd yn dal i gael sylw ac a all gyfrannu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.



## Cynghorau Cymuned a Thref

**Mae wyth Cyngor yn Sir Gaerfyrddin sy'n bodloni meini prawf y Ddeddf: Cyngor Tref Caerfyrddin, Cwmaman, Cydweli, Llanedi, Llannon, Cyngor Tref Llanelli, Cyngor Gwledig Llanelli a Phen-bre a Phorth Tywyn.**

Golyga hynny fod rhaid iddynt gymryd "camau rhesymol" i gyflawni amcanion y Cynllun Llesiant hwn a llunio adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd. Mae'r BGC yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae pob Cyngor Cymuned a Thref yn ei wneud yn ein cymunedau ac mae'r BGC yn edrych ar bob cyfle i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r amcanion llesiant.

Ymgynghorwyd â phob Cyngor Cymuned a Thref, gan gynnwys y rhai y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt, ar yr  Asesiad a'r Cynllun Llesiant, ac maent yn cael eu hannog i ystyried sut allant gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun.





## Bargen Ddinesig Bae Abertawe

**Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ddull trawsnewidiol o sicrhau maint a natur y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi cynlluniau twf y rhanbarth, sef cyfanswm buddsoddiad o £1.3 biliwn o'r sectorau cyhoeddus a phreifat dros gyfnod o 15 mlynedd.**

Mae'r Fargen yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i atgyfnerthu rôl y rhanbarth o ran arloesedd technolegol ac i ddod yn arloesydd arweiniol wrth ddatblygu a masnacholi atebion i rai o'r heriau mwyaf ym meysydd gwyddorau bywyd a llesiant, arloesi digidol, ynni a gweithgynhyrchu smart.

Trwy'r prosiectau bydd y Fargen Ddinesig yn arddangos y cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o ddefnyddio arloesiadau a thechnoleg ddigidol y genhedlaeth nesaf i symbylu'r economi ranbarthol ac ennyn diddordeb buddsoddwyr rhyngwladol, tra'n parhau i ganolbwyntio ar anghenion trigolion yr ardal ac ymwreiddio yn naearyddiaeth ac asedau Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe.



## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

**Sefydlwyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC) i oruchwylio'r gwaith o barhau i drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn ardal Gorllewin Cymru.**

Mae'r Bartneriaeth hon yn crynhoi at ei gilydd y tri awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn ogystal â chynrychiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr.

Mae'r Bartneriaeth wedi cyhoeddi Asesiad o Anghenion Poblogaeth ar gyfer y rhanbarth a bydd yn cynhyrchu Cynllun Ardal i fynd i'r afael â'r materion a amlygir yn yr asesiad. Byddwn yn sicrhau bod gwaith y Cynllun Ardal a'r Cynllun Llesiant yn ategu ei gilydd lle bynnag y bo modd.



# Myfyrio ar ein Cynllun Llesiant 2018-2023

Mae holl bartneriaid y BGC wedi ymrwymo'n llawn i weithio mewn ffordd ragofalol ym mhopeth a wnânt.

Yn ystod 2018-19, bu'r BGCau yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn rhan o ddatblygu 'Strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach' Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Fframwaith Iechyd a Llesiant oedd yn ei hategu.

Adlewyrchwyd yr ymrwymiad hwn hefyd yng ngwaith y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel ar atal troseddu ac yng ngwaith y Grŵp Sicrhau Ymyriadau ac Atal Cynnar ar y 1,000 diwrnod cyntaf ac ar wella iechyd a llesiant ein cymunedau.



Cyflwynwyd adroddiad 'Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen' y Cyngor Sir i'r BGC ym mis Medi 2019 gyda'i argymhellion ar adfywio cymunedau gwledig lleol a chyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd gwledig. Roedd yr adroddiad yn dilyn darn cynhwysfawr o waith gan Dasglu trawsbleidiol oedd wedi cynnwys cyfraniadau gan nifer o bartneriaid y BGC ac ymglymiad trigolion a rhanddeiliaid i ddysgu mwy am anghenion cymunedau gwledig.

Roedd y cyfleoedd cydweithio i bartneriaid gefnogi'r agenda hwn yn cynnwys datblygu economaidd, addysg a sgiliau, band eang a sgiliau digidol, twristiaeth, trafnidiaeth a phriffyrdd, amaethyddiaeth a bwyd, gwytnwch cymunedol, mynediad at wasanaethau a'r trydydd sector, ynni adnewyddadwy a'r amgylchedd a gwastraff. Roedd rhaglen y 10 Dref Wledig yn un o brif ddeilliannau'r adroddiad hwn.

Yn ystod 2020-21, sicrhaodd y BGC £100k i ddatblygu prosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol yn edrych ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Roedd y prosiect yn edrych ar drefniadau caffael yn y sector cyhoeddus a chadwyni cyflenwi bwyd lleol.

Er gwaetha'r amgylchiadau heriol, teimlwyd ei bod hyd yn oed yn bwysicach i ddatblygu'r gwaith hwn fel rhan o'r gwaith ar gynllunio a datblygu'r adferiad economaidd. Comisiynwyd y Ganolfan ar gyfer Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i weithio gyda'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd, y Brifysgol a'r Coleg i edrych ar y trefniadau caffael presennol a gwariant/cyflenwad bwyd.

Mae sicrhau'r cyllid pwrpasol hwn wedi galluogi'r BGC i integreiddio amcanion ac amlinellu'r posibiliadau ar gyfer datblygu, gan gynnig ffordd ymarferol ymlaen i bartneriaid weithio gyda'i gilydd. Gwneir mwy o waith gyda phartneriaid y BGC ar elfennau caffael

ac adferiad economaidd ac mae trafodaethau yn parhau, gyda chyfleoedd ar gyfer datblygu rhagor o brosiectau ar y gadwyn cyflenwi bwyd.

Mae Pentre Awel yn ddatblygiad arloesol £87m sy'n cael ei drefnu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Hwn yw'r cynllun adfywio mwyaf yn Ne Orllewin Cymru a bydd yn crynhoi at ei gilydd wyddorau bywyd ac arloesedd busnes, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern ar safle 83-erw Llynnoedd Delta ar arfordir Llanelli.

Mae'r cynllun gwirioneddol gydweithiol hwn yn cael ei gyflawni i'r gymuned leol gan y Cyngor Sir mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgolion a cholegau a chaiff ei ran-gyllido gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe (£40 miliwn). Mae'n anelu at greu tua 1,800 o swyddi dros 15 mlynedd a rhoi hwb o fwy na £450m i'r economi leol.

Mae continwwm o addysg, sgiliau a hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer pobl leol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant o ysgolion i addysg bellach ac uwch a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant sydd ar gael ym meysydd iechyd a gofal ond mae hefyd yn cynnwys adeiladu, gwasanaethau ategol a hyfforddiant digidol. Mae'r prif ddarparwyr a gytunwyd yn cynnwys partneriaid y BGC - Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr - gyda Phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd.

Mae'r BGC wedi trafod penderfynyddion ehangach llesiant sy'n cynnwys iechyd, creu swyddi, mynediad at wasanaethau, sgiliau, hyfforddiant a chydlyniad cymunedol. Mae aelodau wedi amlygu hefyd yr angen posib dros y 20-30 mlynedd nesaf a sicrhau y gall y cyfleusterau a ddarperir addasu i anghenion y dyfodol.

**Development of the Hywel Dda University Health Board's 'Healthier Mid and West Wales Strategy'**

**£100k funding secured by PSB to develop the Foundational Economy Challenge Fund**

**The Centre for Local Economic Strategies (CLES) commissioned**

**Pentre Awel, innovative £87m development being delivered by Carmarthenshire County Council**

**Swansea Bay City Deal (£40million) aims to create around 1,800 jobs over 15 years and boost the local economy by more than £450m.**

**A Continuum of Education, Skills and Training under development**

# Amcanion a Nodau Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin

## 1\ Amcan

**Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg**

| Camau allweddol | Cam 1 2023-24 | Cam 2 2024-26 | Phase 3 2026 – tu hwnt |
|---|---|---|---|
| • Cynllunio ar gyfer ein gweithlu i'r dyfodol trwy weithio ar y cyd i hyrwyddo cyfleoedd gwaith a gyrfa yn y sector cyhoeddus. | → | | |
| • Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Fwyd Sir Gaerfyrddin. | → | → | |
| • Cynyddu Achrediad y Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith aelodau'r BGC a hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn lleol. | → | → | |
| • Gwella'r ddarpariaeth a sgiliau i gefnogi'r diwydiant carbon isel sy'n tyfu, gan adeiladu ar waith cyfredol trwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. | → | → | → |
| • Gweithio tuag at ddatblygu system fwyd leol integredig. | → | → | → |









# 2\ Amcan

## Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd

| Camau allweddol | Cam 1 2023-24 | Cam 2 2024-26 | Phase 3 2026 – tu hwnt |
|---|---|---|---|
| • Creu perthynas gydnerth rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn gwella cydweithio ac integreiddio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin gan gynnwys atal. | → | | |
| • Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen Pwysau Iach, Cymru Iach. | → | → | |
| • Gwreiddio gweledigaeth y Fframwaith Iechyd a Llesiant a symud at Fodel Cymdeithasol Iechyd a Llesiant. | → | → | |
| • Datblygu trefn bartneriaeth o fynd i'r afael â materion amlasiantaethol o ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. | → | → | → |
| • Cefnogi'r gwaith o sicrhau a rhannu dysgu o raglen 10,000 o sgyrsiau llesiant y Bwrdd Iechyd. | → | → | → |







# 3\ Amcan

## Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur

| Camau allweddol | Cam 1 2023-24 | Cam 2 2024-26 | Phase 3 2026 – tu hwnt |
|---|---|---|---|
| • Cynyddu cydweithio ar seilwaith Gwefru EV Cerbydau Trydanol mewn lleoliadau sector cyhoeddus. | → | | |
| • Mynd ati'n systematig i adolygu'r risgiau a nodwyd yn Adroddiad Tystiolaeth yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA3) – crynodeb i Gymru a datblygu ymateb partneriaeth. | → | | |
| • Gwreiddio trefn bartneriaeth ar gyfer datblygu seilwaith Gwyrdd a Glas* yn y sir.<br>* Seilwaith gwyrdd a glas (GBI) yw'r holl barseli unigol o ofod a nodweddion naturiol yn ein gofodau trefol a gwledig sydd, o'u cysylltu, yn cynnig buddion ansawdd bywyd ac amgylcheddol i gymunedau a'r natur sy'n ffynnu oddi fewn iddynt o'r herwydd. | → | → | |
| • Datblygu dadansoddiad galw o stad ac asedau aelodau'r BGC er mwyn lleihau ein hôl troed carbon i'r dyfodol. | → | → | |
| • Adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws sefydliadau sector cyhoeddus er mwyn sicrhau cyhoeddiad Sero Net Cymru. | → | → | → |







# 4\ Amcan

## Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau

| Camau allweddol | Cam 1 2023-24 | Cam 2 2024-26 | Phase 3 2026 – tu hwnt |
|---|---|---|---|
| • Adnabod a gweithredu cyfleoedd ar gyfer staff sefydliadau'r BGC i Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) a gwella'r trefniadau cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth. | → | | |
| • Adeiladu ar wasanaethau cyngor a chefnogaeth i drigolion trwy Hwb y Cyngor, trwy ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws sefydliadau'r BGC. | → | | |
| • Datblygu ymhellach yr ymgyrch 'Hawliwch eich Haeddiant' trwy drefn amlasiantaethol, gyda negeseuon cyson ar gefnogaeth i drigolion. | → | → | |
| • Adeiladu data byw o ran tlodi tanwydd a hyrwyddo gwelliannau effeithlonrwydd yn y cartref. | → | → | → |








# 5 \ Amcan

## Helpu creu cymunedau diogel, amrywiol a chynaliadwy

| Camau allweddol | Cam 1 2023-24 | Cam 2 2024-26 | Phase 3 2026 – tu hwnt |
|---|---|---|---|
| • Paratoi Strategaeth Wirfoddoli Sir Gaerfyrddin. | → | | |
| • Asesu trefniadau cyfredol a pharatoi cynllun amlasiantaethol ar gyfer datblygu cydnerthedd cymunedol ymhellach. | → | → | |
| • Cefnogi gweithredu, datblygu ymhellach a monitro Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. | → | → | → |








# Y Cynllun Llesiant a pham rydym ei angen

## Gofynion y Ddeddf

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ddeddf arloesol sy'n cynnig cyfle unigryw i'r holl wasanaethau cyhoeddus weithio'n wahanol gyda'i gilydd, gan gynnwys cymunedau yn llunio ein dyfodol hirdymor a gwella llesiant i bawb.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dinasyddion Cymru ynghanol popeth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ganolog i bopeth a wnawn.

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus, wrth weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn, ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a luniwyd i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb andwyo ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae angen inni sicrhau, wrth inni wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith allai hynny gael ar bobl yn byw yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

## Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith Nod Llesiant y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus weithio tuag atynt i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein holl gymunedau.




Rhyngddynt rhoddant bwrpas cyffredin i wasanaethau cyhoeddus a gweledigaeth a rennir i weithio tuag ati. Rhaid ystyried y nodau yn gasgliad integredig, a gwneir y cysylltiadau perthnasol rhyngddynt er mwyn cyflawni llesiant. Cafodd yr holl amcanion a gweithredoedd a amlinellir yn y Cynllun Llesiant hwn eu llunio gyda'r bwriad o wneud cyfraniad ehangach i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

## Pum Ffordd o Weithio

**Mae pum Ffordd o Weithio y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus eu dilyn i ddangos sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.**

Fel BGC, mae'n rhaid inni sicrhau bod popeth a wnawn wedi rhoi ystyriaeth i'r ffyrdd o weithio hyn. Mae'n rhaid inni feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau lleol, ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydlynol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod hefyd yn gweithio gyda'n gilydd mewn trefn bartneriaeth gadarnach a mwy effeithiol.


Yn ddiweddarach yn y Cynllun rhoddwn ddisgrifiad manylach o sut rydym wedi defnyddio'r pum Ffordd o Weithio ar gyfer pob un o'r amcanion er gwneud yn fawr o'n cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol.

Cydnabyddiaeth: Pum Ffordd o Weithio, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



### Cydweithio

Y ffordd y gallai gweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.




### Integreiddio

Ystyried sut allai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.




### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.



### Hirdymor

Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i gyflawni anghenion hirdymor hefyd.



### Atal

Y ffordd y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) a gwarchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, trwy annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau a wnânt.

Rhoddodd y Comisiynydd adborth manwl ar yr Asesiad Llesiant a gyfrannodd at ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Mae BGC Sir Gaerfyrddin yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd wrth baratoi ein Cynllun Llesiant a byddwn yn myfyrio ar y cyngor a roddir ar ba gamau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion lleol a nodir yn y cynllun mewn ffordd sy'n gydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.





# Cip ar Sir Gaerfyrddin

Mae Cyfrifiad 2021 yn cadarnhau mai cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin yw 187,900 o drigolion. Tyfodd ein poblogaeth gan ychydig dros 4,000 (2.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, o gymharu â 44,000 (1.4%) ar gyfer Cymru gyfan ac ychydig dros 3.5m yn Lloegr a Chymru (6.3%).

Mae ein data diweddaraf ar broffiliau oed mudwyr domestig yn dangos tuedd barhaus o boblogaethau o fyfyrwyr yn bennaf yn mudo allan o Sir Gaerfyrddin heb fawr ddim tystiolaeth eu bod yn dychwelyd yn y grwpiau oed oedolion ifanc 20-29. Mae'r mewnlif net ar ei uchaf yn yr ystod oed 30-65 ac mae'n cyfateb i fewnlif net cyfartalog uwch o blant a phobl ifanc 0–14 oed. Y rheswm tebygol am hynny yw teuluoedd yn mudo.

Mae un person ar gyfer pob darn o dir maint cae pêl droed yng Nghymru. Roedd tua 150 o drigolion i bob cilomedr sgwâr yng Nghymru yn 2021, i fyny o 148 o drigolion i bob cilomedr sgwâr yn 2011. Yn 2021, Sir Gaerfyrddin yw'r bumed sir leiaf cywasgedig ei phoblogaeth yng Nghymru, ac mae ei harwynebedd yn cyfateb i tua dau gae pêl droed i bob person sy'n byw yno.

O ran cysylltiadau mudo rhwng Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cyfagos, gwelwyd y cyfnewidiau cadarnhaol net mwyaf gydag Abertawe, Ceredigion a Chastell Nedd Port Talbot. Ar gyfer yr all-lif, gwelwyd y prif all-lif net i Gaerdydd, ac all-lifiau net llai i Fryste; y naill a'r llall yn cael eu dylanwadu gan ymfudiad blynyddol myfyrwyr i addysg uwch.

Roedd 96,200 o fenywod (51.2% o'r boblogaeth) a 91,700 o ddynion (48.8%) yn Sir Gaerfyrddin. Mae hwn yn rhaniad tebyg i'r Cyfrifiad blaenorol ac mae'n gymharol â'r sefyllfa yng Nghymru ac yng Nghymru a Lloegr.
Ers Cyfrifiad 2011, cafwyd cynnydd o 18.9% yn nifer y bobl 65 mlwydd oed a throsodd sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin (45,400), gostyngiad o 2.5% yn nifer y bobl 15 i 64 oed (112,100), a gostyngiad o 0.8% yn nifer y plant dan 15 mlwydd oed (30,400).

Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, cafwyd parhad yn y gostyngiad arwyddocaol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein sir, o 43.9% yn 2011 i 39.9%. Erbyn hyn mae 72,838 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y sir i'r ganran syrthio'n is na 40% o'n poblogaeth.

Mae Sir Gaerfyrddin yn ffinio â Sir Benfro i'r Gorllewin, Ceredigion i'r Gogledd, Powys i'r Dwyrain, a Chastell Nedd Port Talbot ac Abertawe i'r De-Ddwyrain. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorchuddio tua 9% o Sir Gaerfyrddin ac amcangyfrifir fod tuag 1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw yn y Parc Cenedlaethol.

Dylid nodi erbyn hyn nad oes ond un ward yn Sir Gaerfyrddin – Pontyberem – lle y mae dros 60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Ddeng mlynedd yn ôl, gwelwyd nad oedd unrhyw wardiau yn y sir lle yr oedd dros 70% yn siarad Cymraeg felly mae'r gostyngiad pellach hwn yn cael effaith arwyddocaol yn ein cymdogaethau.

Gwelwyd gostyngiad ymhob awdurdod lleol yng nghanran plant rhwng 3 a 15 y dywedir y gallant siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Ar lefel genedlaethol credir fod y gostyngiad yn nifer a chanran pobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn digwydd yn bennaf oherwydd gostyngiad ymhlith plant a phobl ifanc y dywedwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Gaerfyrddin mae nifer y plant rhwng 3-15 sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng gan 510 o bobl, sy'n cyfateb i ostyngiad canrannol o 2.6.

Gwelwyd gostyngiadau hefyd yn y categorïau oed 16-64 a 65+ er ar lefelau mwy arwyddocaol na'r grŵp oed iau. Mae'r gostyngiad ymhlith pobl dros 65 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn golygu gostyngiad canrannol o 8.7.

Dywedodd 74,355 o bobl sy'n byw yn y sir nad oes ganddynt unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yn ystod Cyfrifiad 2011. Cynyddodd y lefel hon dros y ddeng mlynedd ddiwethaf i 85,287 neu 4.8 pwynt canrannol.

Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1.9 pwynt canrannol neu 1,828 o bobl. Mae hwn yn ostyngiad llawer llai na'r ffigyrau ar gyfer pobl sydd ond yn gallu siarad Cymraeg.

Mae canran y trigolion a chanddynt anabledd cyfyngol wedi lleihau rhyw gymaint yn Sir Gaerfyrddin ac yn genedlaethol. Mae 11.3% ohonynt yn cael eu cyfyngu rhag cyflawni eu gweithgareddau beunyddiol.

Ganed mwyafrif mawr y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yng Nghymru (73.8%) neu Lloegr (20.2%). Cafwyd gostyngiad yng nghanran pobl a aned yng Nghymru sy'n byw yn y sir ers y cyfrifiad diwethaf, sef gostyngiad o 2.2.%. I'r gwrthwyneb, cafwyd cynnydd o 1.3% yng nghanran y bobl a aned yn Lloegr sy'n byw yn y sir dros yr un cyfnod.

Dywed Cyfrifiad 2021 wrthym, o blith yr 81,756 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin, fod 30.4% o aelwydydd yn cynnwys un person a chanddynt broblem iechyd hirdymor neu anabledd, o gymharu â 32% yn 2011. Nid yw'r gostyngiad hwn ond 1% yn uwch na chyfartaledd Cymru o gymharu â bod 2% yn uwch ddeng mlynedd yn ôl.

Dros y deng mlynedd diwethaf daeth y sir yn gartref i fwy o bobl a aned yn Romania a Gwlad Pwyl, sy'n cyfrif am rai o'r codiadau canrannol mwyaf arwyddocaol. Mae hyn yn wir hefyd am bobl a aned yn y Dwyrain Canol ac Asia. Yn ôl yr Arolwg Gweithlu Lleol/ Arolwg Poblogaeth Lleol (2021), daw 4% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Awgrymwn y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon, gan fod yr arolwg yn seiliedig ar sampl llai o'r boblogaeth ac ar dueddiadau demograffaidd sy'n perthyn i'r cyfnod cyn pandemig COVID-19. Fodd bynnag, er mwyn ychwanegu at ein tystiolaeth, gwnaeth cyfanswm o 4,730 o drigolion yr UE sy'n byw yn ein sir gais i Gynllun Ymsefydlu'r UE erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021; mae hyn yn 2.5% o'r amcangyfrif o boblogaeth gyfredol Sir Gaerfyrddin.

Mae gan Sir Gaerfyrddin y gyfran uchaf o aelwydydd a chanddynt 2 berson neu ragor yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb sef 9.4% o gymharu ag 8.4% yng Nghymru a 6.7% yn Lloegr a Chymru.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys amrywiaeth o dirweddau deniadol a hanesyddol, o uwchdiroedd agored i dir amaethyddol ponciog ar dir isel. Mae'r tirweddau lleol hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o falchder, diwylliant a hunaniaeth leol. Mae profiad pobl o'r amgylchedd a'u perthynas ag ef yn gallu cael effaith gadarnhaol hefyd ar iechyd a llesiant.

Yn ystod 2021, barnwyd fod 29,444 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn byw mewn tlodi, mae hyn yn gynnydd o 6.3% ar y flwyddyn gynt, sef 27,691. Y diffiniad o dlodi yw pan mae "incwm aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain" (yn 2021 llai na £19,642).

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 54.7% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin (44,709) yn ddifreintiedig mewn o leiaf un o'r pedwar dimensiwn o amddifadedd – cyflogaeth, addysg, tai ac iechyd ac anabledd. Mae hwn yn ostyngiad o 7.3% ers y Cyfrifiad diwethaf.

Mae'r cyfartaleddau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n negyddol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr yn yr holl fesuriadau heblaw am 'mae'r aelwyd yn ddifreintiedig ymhob un o'r pedwar dimensiwn' lle y mae'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gaerfyrddin 0.1% yn is nac ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae cyfraddau tlodi yn codi yn Sir Gaerfyrddin ac ar lefel genedlaeth0l, ac felly mae'n ddiddorol gweld o'r mesuriad hwn ei bod yn ymddangos fod llai o aelwydydd yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig.

Mae hyn yn awgrymu, er bod aelwydydd yn gwella eu safon byw trwy addysg, cyflogaeth, iechyd neu dai, nad yw effeithiau'r gwelliannau hynny o reidrwydd yn lleihau'r risg y bydd yr aelwydydd hyn yn syrthio i dlodi neu'n helpu aelwydydd i godi eu hunain allan o dlodi.

# Sut aethom ati i ddatblygu'r Cynllun Llesiant

## Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin

Y llynedd cyhoeddasom ein Hasesiad Llesiant (WBA) o bobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin.

Roedd yn edrych ar gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ein sir. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ymchwil lleol a chenedlaethol ac ymatebion cannoedd o bobl sy'n byw, gweithio a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar draws Sir Gaerfyrddin yn dilyn ymarferiad ymgynghori ac ymglymu.

Defnyddiwyd canfyddiadau o'r asesiad hwnnw i ganolbwyntio ar beth ellir ei wneud i wella llesiant pobl leol. Mae'r Asesiad wedi lliwio'r amcanion a'r camau a nodwyd yn y Cynllun hwn ar gyfer ein sir. Mae copi o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin i'w weld ar wefan y BGC - **www.thecarmarthenshirewewant.wales**




## Beth ddywedodd yr ALl wrthym

Buom yn asesu'r prif themâu a ddaeth allan o'r Asesiad Llesiant yn ôl eu lefel blaenoriaeth a pha mor sicr ydyw y byddant yn digwydd.

Yna cyfrannodd hyn at y drafodaeth ar y meysydd y dylai partneriaid y BGC ganolbwyntio arnynt trwy weithio ar y cyd.

Y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt oedd y nifer uchel o aelwydydd sy'n dal i fyw mewn tlodi, problem tlodi a gweithio, costau byw yn codi, y gyfradd hunanladdiad gymharol uchel ymhlith oedolion, newid hinsawdd a'r argyfwng natur, problem llygredd dŵr o nitradau a ffosffadau a'r cynnydd sylweddol disgwyliedig mewn dementia.

Daeth nifer o themâu i'r golwg hefyd sy'n galw am ystyriaeth bellach a rhagor o ymchwil gan gynnwys lefelau gordewdra ymhlith plant ac oedolion, pryderon pobl ifanc ynghylch bwlïo, seibrfwlïo a thrais yn y cartref, lefelau yfed alcohol ymhlith oedolion, atgyfeiriadau cynyddol am drais yn y cartref, lefelau digartrefedd a phobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref, lefelau uwch o dipio anghyfreithlon, colli trafnidiaeth gyhoeddus a chostau uchel gofal preswyl a gofal nyrsio.

Yn seiliedig ar y trafodaethau a ddilynodd ar y prif themâu hyn, rydym wedi cytuno canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion llesiant canlynol:

- Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
- Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau
- Helpu creu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol.

## Pwy gyfrannodd at ddatblygu ein Cynllun Llesiant

**Buom yn parhau ein sgyrsiau gyda'n cymunedau, rhanddeiliaid allweddol ac eraill megis Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gael eu barn ar y Cynllun Llesiant a'n Hamcanion Llesiant.**

Mae'r adborth a gawsom o'n gwaith ymglymu wedi cyfrannu at gynhyrchu'r cynllun hwn ac mae wedi helpu'r BGC i ystyried sut all wneud y cyfraniad mwyaf posib i'r pum ffordd o weithio a'r nodau llesiant.

Cyhoeddir Adroddiad Ymgynghori ac Ymglymu manwl ar yr un pryd â'n Cynllun Llesiant. Ceir crynodeb o'n gwaith yma.

- Yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12-wythnos, hyrwyddodd y BGC arolwg ar-lein, a chawsom 107 o ymatebion. Roedd 79% o ymatebwyr yn cytuno fod yr Amcanion Llesiant yn darparu ffocws i'r BGC i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer y sir.
- Mae'r adborth cyffredinol yn awgrymu y dylid cryfhau cydnerthedd cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol a chynhyrchu bwyd mewn cymunedau.
- Roedd ein gwaith ymglymu yn cynnwys sgyrsiau Llesiant mewn digwyddiad Hawliau Gofalwyr a Balchder LHDT+ Gaeaf. Cawsom gyfle hefyd i gynnal gweithdai cymunedol penodol trwy Pobl yn Codi Llais a Fforwm Strategol y Gymraeg Sir Gaerfyrddin.
- Cawsom y cyfle i weithio gyda Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin a'n Tîm Cynhwysiant Cymunedol i baratoi fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r cynllun, fydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r cynllun hwn. Bydd ein fersiwn Hawdd ei Ddeall yn cynnwys profiadau go iawn defnyddwyr ein gwasanaethau.



# Ein Hamcanion Llesiant

## 1 \ Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg

### Ein gweledigaeth fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd Sir Gaerfyrddin yn sir lewyrchus a chanddi weithlu addysgedig a medrus a bydd yn cynnig cyfleoedd i bawb.

Bydd pawb yn gallu cyflawni eu llawn botensial, gan leihau tlodi ac amddifadedd. Gwneir yn fawr o gyfleoedd cyllido, a bydd ein pobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau posib i arloesi ac arwain yn ein cymunedau.

### Pum Ffordd o Weithio

5 WAYS

Mae'r Cynllun Llesiant yn ceisio canolbwyntio ar heriau mwy hirdymor tra'n sicrhau nad yw gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn dioddef.

Bydd y BGC yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cynnwys partneriaid ehangach, busnesau a chymunedau i gyflawni'r amcan hwn. Bydd cyfleoedd hefyd i gydweithio â sefydliadau eraill ac olion traed rhanbarthol i'n helpu i gymryd ein camau.

### Tystiolaeth o'n Hasesiad Llesiant

Lleisiwyd pryderon am ddirywiad y Gymraeg yn y sir.

Erbyn hyn mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth oed ysgol ac mae'r ganran ymhlith ein poblogaeth hŷn yn syrthio'n arwyddocaol ymhob degawd. Ceir y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn y grŵp oed 25-44. Mae hyn yn bwysig gan mai dyma'r grŵp oed sydd fwyaf tebygol o fagu teuluoedd a defnyddio'r Gymraeg yn ein gweithleoedd.

Mae'n nodedig, o blith y 23,274 o drigolion Sir Gaerfyrddin nad oes ganddynt ddefnydd o gar neu fan, fod 50% yn 50 neu'n hŷn (Cyfrifiad 2011). Hefyd, dim ond 55% o bobl sy'n 80 oed neu'n hŷn sydd â defnydd o gar neu fan, sy'n golygu fod trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau yn y gymuned yn bwysig er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cymunedau. Mae gwasanaethau o'r fath yn golygu'r gwahaniaeth rhwng person yn aros yn annibynnol gartref neu'n mynd i ofal preswyl.

Roedd argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn her i bobl hŷn cyn y pandemig ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd y collwyd mwy o wasanaethau a'r ofn o ddal COVID-19 ar fysiau a threnau. Mae cost gofal preswyl a gofal nyrsio ar draws y sir yn uchel, sef tua £33,500 y flwyddyn.

Mae hyn yn creu straen ac ansicrwydd i'r sawl sydd angen gofal. Hefyd, dywedodd rhieni a gofalwyr y gall cost gofal plant fod yn ormod wrth geisio mynd yn ôl i weithio neu gael hyfforddiant. Hefyd, dywedodd ein pobl ifanc fod mynediad at hyfforddiant a swyddi yn fater lleol hollbwysig.

Costau Tai – Mae angen mwy o dai fforddiadwy yn y sir. Cafwyd cynnydd o 27.1% ym mhris cyfartalog tŷ ar gyfer prynwr tro cyntaf yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2016 (£112,497) a 2021 (£142,919).

Yn Sir Gaerfyrddin cyflwynodd 1921 o aelwydydd eu hunain yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o fod yn ddigartref yn ystod 2020/2021. Y prif resymau pam fod pobl yn cysylltu â ni yw na fydd teuluoedd yn eu cartrefu, hysbysiadau gan landlordiaid a pherthnasoedd yn chwalu. O'r 380 achos lle y bu modd inni wneud gwaith ataliol, roeddem wedi gallu rhwystro 46% o aelwydydd rhag mynd yn ddigartref. Er bod ein gwaith ataliol wedi cynyddu eleni (50%), daeth yn anoddach rhwystro digartrefedd gan fod gan fwy o bobl faterion tai cymhleth ac mae pobl yn aros nes eu bod mewn argyfwng cyn cysylltu â'r Cyngor i gael help pan maent yn wynebu anawsterau tai, sy'n golygu mai bach yw'r gobaith o allu rhwystro digartrefedd.

Er mwyn denu a chadw cenedlaethau'r dyfodol, mae'n rhaid cael amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ac mae'n rhaid inni baratoi ein pobl ifanc a chenedlaethau hŷn o ran sgiliau digidol. Ym mis Mawrth 2022 dangosodd Ystadegau Cymru fod gan Sir Gaerfyrddin y drydedd gyfradd gyflogaeth isaf o gymharu â gweddill Cymru. Mae cyfraddau cyflogaeth wedi gostwng o 68.1% ym mis Mawrth 2021 i 69.5% (y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2022). Mae hyn ymhlith yr isaf yng Nghymru ac mae'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73.6%.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyflogaeth ar gyfer trigolion anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn Sir Gaerfyrddin yn parhau'n destun pryder. Mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl heb anabledd (77.1%) yn parhau gryn dipyn yn uwch na'r un ar gyfer pobl ag anabledd (49.7%).

Mae rhagamcaniadau poblogaeth o 2018 i 2043 yn dangos gostyngiad yng ngrwpiau oed dan 15 a than 64 ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Ar gyfer yr un cyfnod, dangosir cynnydd o fwy na 32% ar gyfer trigolion 65 oed a'n hŷn yn y Sir. Gallai'r rhagolygon ar gyfer poblogaeth yn heneiddio yn Sir Gaerfyrddin olygu fod llai o bobl ar gael i weithio ar draws yr holl sectorau.

### Y camau a fwriadwn:

- Cynllunio ar gyfer ein gweithlu i'r dyfodol trwy weithio ar y cyd i hyrwyddo cyfleoedd gwaith a gyrfa yn y sector cyhoeddus
- Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Fwyd Sir Gaerfyrddin
- Cynyddu Achrediad y Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith aelodau'r BGC a hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn lleol
- Gwella'r ddarpariaeth a sgiliau i gefnogi'r diwydiant carbon isel sy'n tyfu, gan adeiladu ar waith cyfredol trwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol
- Gweithio tuag at ddatblygu system fwyd leol integredig

### Cerrig Milltir Cenedlaethol

- Bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050
- Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050
- Dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur
- Bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050

### Dangosyddion Cenedlaethol

- Sgôr 9 pwynt cyfartalog disgyblion wedi'i chapio, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys (NWBI 7)
- Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NWBI 8)
- Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) (NWBI 9)
- Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen (NWBI 10)
- Canran y busnesau sydd wrthi'n arloesi (NWBI 11)
- Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth (NWBI 21)
- Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (NWBI 22)

# 2 \ Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd

## Ein gweledigaeth fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Gan adeiladu ar y weledigaeth yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ar gyfer 2018/19, ein gweledigaeth a rennir yw sir lle y mae unigolion, cymunedau a'r amgylcheddau maent yn byw, chwarae a gweithio ynddynt yn addasol, cysylltiedig a chyd gefnogol.

Golyga hynny fod pobl yn gydnerth a gweithgar a'u bod yn gallu byw bywydau llawen, iachus a phwrpasol a mwynhau ymdeimlad cryf o berthyn.

## Pum Ffordd o Weithio

5 WAYS

Mae cynllunio ar gyfer yr hirdymor wedi bod yn her i bartneriaid y BGC gan y bu'n rhaid iddynt ymateb yn y fan a'r lle i heriau pandemig coronafeirws yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cynllunio i fynd i'r afael â heriau hirdymor yn parhau'n flaenoriaeth inni.

Gyda'r heriau hynny daeth cyfleoedd newydd i sicrhau integreiddiad ac i ystyried sut allai ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant ac amcanion llesiant yr aelod sefydliadau unigol. Mae prosiectau a chyfleoedd penodol y bwriadwn eu cynnal ac fe ddysgwyd gwersi pwysig o'r pandemig.

Gall gweithredu i rwystro problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. Rydym eisiau cydweithio i ddeall a mynd i'r afael â rhai o'r materion gwaelodol sy'n effeithio bywydau pobl a lleihau'r tebygrwydd y bydd y pethau hynny'n digwydd. Mae partneriaid wedi edrych ar a cheisio deall achos gwreiddiol materion ymhob cam, er mwyn ceisio eu hatal rhag digwydd neu eu hatal rhag mynd yn waeth. Mae'n hollbwysig fod atebion yn cael eu cyflwyno ar yr adeg iawn, gan geisio gweithredu'n gynnar yn hytrach nac aros i gyrraedd argyfyngau penodol.

## Tystiolaeth o'n Hasesiad Llesiant

### Wrth inni fynd i mewn i bum mlynedd nesaf y Cynllun Llesiant hwn rydym yn wynebu heriau o bwys.

Er bod pobl yn gyffredinol yn byw'n hirach, mae gormod yn dal i farw flynyddoedd yn gynt nac y dylent neu'n byw rhannau helaeth o'u bywydau gydag iechyd gwael a chyflyrau hirdymor, mewn poen ac yn mwynhau iechyd meddyliol ac emosiynol gwael.

Mae Asesiad Llesiant 2022 yn tanlinellu pwysigrwydd y blociau adeiladu ar gyfer Sir Gaerfyrddin iachus megis incwm, cyflogaeth, tai a chysylltiadau cymdeithasol (sy'n aml yn cael eu galw'n benderfynyddion ehangach iechyd). Pan nad oes gan bobl gartrefi cynnes a bwyd iach a'u bod yn poeni byth a beunydd am gael dau ben llinyn ynghyd, mae'n rhoi cryn straen ar eu hiechyd a llesiant. Mewn llawer o'n cymunedau mae rhai o'r blociau adeiladu hanfodol hyn ar goll neu dan fygythiad.

Mae'r asesiad hefyd yn amlygu anghydraddoldebau o bwys ar draws cymunedau yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd - term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahaniaethau systematig, annheg y gellir eu hosgoi mewn iechyd a gofal ar draws y boblogaeth a rhwng grwpiau gwahanol, sy'n effeithio ar gyfleoedd pobl i fyw bywydau iachus. Gwaethygwyd y rhain gan bandemig Covid-19 lle y gwyddom fod bywyd yn galetach i bobl yn byw mewn cymunedau tlotach.

Mae hefyd nifer o heriau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol allai ledu anghydraddoldebau iechyd ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys argyfyngau hinsawdd a natur, effeithiau parhaus pandemig Covid-19 ac ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd (a elwir fwy a mwy yn 'her driphlyg'). Wrth inni ddod allan o COVID-19 mae angen inni roi ystyriaeth i'w effeithiau ar iechyd corfforol, yn enwedig felly COVID hir; iechyd meddyliol ac emosiynol yn gwaethygu; newidiadau mewn patrymau bwyta, yfed a bod yn weithgar; effeithiau ar gyflogaeth a chyraeddiadau addysgol yn ogystal ag oedi cynyddol rhag derbyn triniaeth a gofal. Ar ben hyn, mae'r cynnydd presennol yng nghostau byw yn argyfwng cymdeithasol fydd yn effeithio ymhellach ar iechyd corfforol a meddyliol pobl.

## Y camau a fwriadwn:

- Creu perthynas gydnerth rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol er mwyn gwella cydweithio ac integreiddio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin gan gynnwys atal
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen Pwysau Iach, Cymru Iach
- Gwreiddio gweledigaeth y Fframwaith Iechyd a Llesiant a symud at Fodel Cymdeithasol Iechyd a Llesiant
- Datblygu trefn bartneriaeth o fynd i'r afael â materion amlasiantaethol o ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Cefnogi'r gwaith o sicrhau a rhannu dysgu o raglen 10,000 o sgyrsiau llesiant y Bwrdd Iechyd

## Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant

Yr uchelgais a rannwn yw symud at fwy o Fodel Cymdeithasol o Iechyd a Llesiant, ac oddi wrth un sydd ar hyn o bryd yn bennaf yn fodel meddygol o iechyd.

Mae hyn yn adeiladu ar ddealltwriaeth gydnabyddedig fod trin a rheoli cyflyrau yn cyfrannu i lai nac 20% o iechyd a llesiant poblogaeth, ac mai penderfynyddion cymdeithasol sy'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd a llesiant pobl a chymuned.

Yn 2021, gosododd y Bwrdd Iechyd nod i'w Ddirprwy Brif Weithredwr i edrych ar y term “Model Cymdeithasol o Iechyd a Llesiant” ac ystyried beth allai hyn ei olygu i gymunedau yng Ngorllewin Cymru ac i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid. Rhoddwyd y mewnwelediadau a safbwyntiau cyfres o sgyrsiau gydag arweinwyr meddwl mewn cyfres o themâu gan y tîm Iechyd Cyhoeddus lleol ac fe gynhyrchwyd adroddiad. Roedd y cyfranwyr yn unfryd yn eu cefnogaeth i'r ffocws arfaethedig, ac roedd llawer eisiau cyfrannu'n bersonol.

Ymhlith y meysydd yr awgrymir y dylid edrych arnynt yn gyntaf mae targedu'r sawl a effeithir fwyaf gan anghydraddoldeb, gyda'r bwriad o flaenoriaethu'r genhedlaeth nesaf drwy eu teuluoedd, ynghyd ag anghenion pobl hŷn. Roedd ffactorau pwysig eraill yn cynnwys gweithio gyda chymunedau ar beth sy'n bwysig iddyn nhw, datblygu gallu arweinyddol mewn cymunedau, ac adnabod ffyrdd o hyrwyddo perchnogaeth gymunedol, gan gynnwys y posibilrwydd o gael cyfrifoldeb am adnoddau. Disgwylir canfyddiadau adolygiad systematig a gomisiynwyd o'r llenyddiaeth gan Brifysgol Aberystwyth cyn bo hir a dylai hynny gefnogi'r gwaith hwn.

## Dangosyddion Cenedlaethol

- Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g (NWBI 1)
- Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig (NWBI 2)
- Canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw (NWBI 3)
- Canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw (NWBI 5)
- Mesur o ddatblygiad plant bach (NWBI 6)
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl (NWBI 29)
- Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (NWBI 38)
- Canran y siwrneiau a wneir ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus (NWBI 48)

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

- Cynyddu canran y plant a chanddynt 2 ymddygiad iachus neu ragor i 94% erbyn 2035 ac i fwy na 99% erbyn 2050



# 3 \ Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur

## Ein gweledigaeth fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd Sir Gaerfyrddin yn cael ei chydnabod yn sir sy'n diogelu a chyfoethogi ei hamgylchedd a'i bioamrywiaeth, gan wneud y defnydd gorau o'i hadnoddau naturiol.

Byddwn yn arwain ar yr argyfyngau Hinsawdd a Natur ac yn gofalu fod ein cyfoeth amgylcheddol yn cael ei ystyried ac yn cael ei gysylltu'n effeithiol â chynnig buddion economaidd a llesiant i'n trigolion ac ymwelwyr.

## Pum Ffordd o Weithio

5 WAYS

Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i leihau'r carbon a llygredd a allyrrwn trwy fynd ati ar y cyd i fynd i'r afael â thrafnidiaeth gynaliadwy a'n defnydd o ynni a'r ynni a gynhyrchwn.

Allwedd yr amcan hwn yw cynnwys a gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu rôl yn gofalu am ein hamgylchedd, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chydnabod pwysigrwydd "meddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol".

Mae angen sicrhau bod y symud at Gymru sero net yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn iddo fod yn gyfiawn a theg. Bydd yr angen i ddatgarboneiddio ein heconomi a'n cymunedau yn effeithio ar ddiwydiannau, sectorau o'r gweithlu a grwpiau cymdeithasol-economaidd mewn gwahanol ffyrdd, gan ddibynnu ar y llwybrau, polisïau a gweithredoedd a ddewiswn.

## Tystiolaeth o'n Hasesiad Llesiant

Mae adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (CCD) ar 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol' yn edrych ar dueddiadau allweddol i'r dyfodol o ran dyfodol gwaith, newid hinsawdd a newid demograffaidd ac mae'n ystyried sut all polisi ar hyn o bryd ac i'r dyfodol sy'n gysylltiedig â'r tueddiadau hyn ddarparu cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau.

Ymhlith y materion o bwys i'n sir ni o Ddatganiad Ardal y De Orllewin mae sicrhau rheolaeth gynaliadwy o'r tir, dadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth a mynd ati i'w gyfoethogi, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac addasu i hinsawdd sy'n newid. Ymhlith y materion o bwys o'r Datganiad Maes Morol mae adeiladu cydnerthedd ecosystemau morol, datrysiadau ac addasiadau yn seiliedig ar natur ar yr arfordir a gwneud yn fawr o gynllunio morol.

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) y llynedd, ac ynddo maent yn asesu i ba raddau y mae Cymru'n llwyddo i gyflawni Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR). Mae SoNaRR2020 yn barnu nad yw pedwar nod hirdymor yr SMNR - stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u cryfhau, ecosystemau cydnerth, lleoedd iachus i bobl ac economi adfywiol - yn cael eu cyflawni ar draws Cymru ar hyn o bryd.

Os yw newid hinsawdd yn parhau ar hyd y llwybr rydym yn ei ddilyn ar hyn o bryd, gallwn ddisgwyl newidiadau arwyddocaol yn y 30 mlynedd nesaf. Mae data a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ar Dueddiadau i'r Dyfodol yn nodi bod disgwyl erbyn 2050 inni weld tymereddau haf cyfartalog yn codi gan 1.34˚C. Gallai hynny arwain at 5% yn fwy o law trwy'r flwyddyn, y rhan fwyaf ohono yn y gaeaf wrth i hafau brofi cyfnodau hirach o sychder.

Proffwydir y bydd lefelau'r môr yn codi gan hyd at 24cm mewn rhai ardaloedd o'r wlad. Bydd Sir Gaerfyrddin yn gweld effaith y newidiadau hyn ymhob agwedd ar fywyd. Os yw'r duedd yn parhau i waethygu, gallai'r Gymru y gwyddom amdani fod yn dra gwahanol erbyn 2080. Bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn awr yn sicrhau dyfodol cenedlaethau'r dyfodol yn Sir Gaerfyrddin a Chymru.


Storm Dennis, Aberystwyth

## Y camau a fwriadwn

- Cynyddu cydweithio ar seilwaith Gwefru EV Cerbydau Trydanol mewn lleoliadau sector cyhoeddus
- Mynd ati'n systematig i adolygu'r risgiau a nodwyd yn Adroddiad Tystiolaeth yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA3) – crynodeb i Gymru a datblygu ymateb partneriaeth
- Gwreiddio trefn bartneriaeth ar gyfer datblygu seilwaith Gwyrdd a Glas yn y sir
- Datblygu dadansoddiad galw o stad ac asedau aelodau'r BGC er mwyn lleihau ein hôl troed carbon i'r dyfodol
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws sefydliadau sector cyhoeddus er mwyn sicrhau cyhoeddiad Sero Net Cymru

## Dangosydd Cenedlaethol

- Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd (NWBI 13)
- Ôl troed byd-eang Cymru (NWBI 14)
- Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen (NWBI 15)
- Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr (NWBI 32)
- Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol (NWBI 33)
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru (NWBI 41)
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru (NWBI 42)
- Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru (NWBI 43)
- Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru (NWBI 44)

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

- Ni fydd Cymru ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050
- Bydd Cymru yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050

# 4 \ Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau

> "Mae tlodi yn gyflwr hirdymor o beidio cael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i gymdogaethau deniadol a llecynnau agored) sy'n cael eu cymryd yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas."

Llywodraeth Cymru

## Ein gweledigaeth fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â symptomau tlodi er mwyn lleihau ei effaith a chreu Sir Gaerfyrddin deg, iach, lewyrchus, ffyniannus a chynaliadwy ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Pum Ffordd o Weithio

5 WAYS

Yn eu hanfod, mae'r camau a nodir yn y Cynllun Llesiant yn aml yn faterion cymhleth na ellir eu datrys mewn cyfnod byr. Mae tlodi yn fater sy'n pontio'r cenedlaethau a chafodd ei waethygu gan effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Mae'r Cynllun Llesiant yn ceisio canolbwyntio ar yr heriau hirdymor hyn tra'n sicrhau nad yw gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn dioddef. Fel BGC mae'n rhaid inni adeiladu tystiolaeth o'r ymyriadau hirdymor sy'n cefnogi ein cymunedau a'n trigolion i fynd i'r afael â thlodi.

Mae ymglymiad yn allweddol i ddatblygu'r camau yn y Cynllun Llesiant. Mae ein camau yn golygu fod rhaid i bartneriaid gynnwys cymunedau, defnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau. Mae'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd yn galw ar gyrff cyhoeddus penodedig, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu blaenoriaethau a gosod amcanion, i ystyried sut allai eu penderfyniadau helpu lleihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision cymdeithasol-economaidd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau hefyd ein bod yn deall barn ac anghenion y sawl a effeithir gan y penderfyniad, yn enwedig felly'r rhai sy'n dioddef anfanteision cymdeithasol-economaidd.

## Tystiolaeth o'n Hasesiad Llesiant

### Cyflwynwyd ein hasesiad ar adeg pan na fu ystyriaethau am lesiant Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd ac i'r dyfodol erioed mor bwysig.

Mae'r materion a gyflwynwyd gan COVID-19, newid hinsawdd, Brexit a newidiadau i ddemograffeg wedi amlygu heriau newydd i unigolion a chymunedau ac ni chafodd yr heriau hyn eu teimlo'n gyfartal. Cafodd pobl oedd eisoes yn profi anghydraddoldebau oherwydd iechyd gwael, tlodi neu oherwydd eu bod yn byw mewn cymunedau ar y cyrion eu taro waethaf gan niweidiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig ac maent yn debygol o brofi anfanteision ychwanegol wrth inni symud i gyfnod 'adferiad.'

Yn ystod ein gwaith ymglymu gyda chymunedau, roedd tlodi yn ffocws allweddol o ran gwella llesiant pobl leol a chymunedau ac roedd yn creu pryderon yn y fan a'r lle ac wrth edrych i'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys tlodi plant, tlodi bwyd a thlodi a gweithio.

Erbyn hyn mae Sir Gaerfyrddin yn gweld ei lefelau uchaf o dlodi plant yn y blynyddoedd diwethaf sy'n batrwm a welir ledled Cymru. Yn 2020, roedd 31.3% o'n plant i fyny at 15 oed yn byw mewn aelwydydd a chanddynt lai na 60% o'r incwm cyfartalog cyn costau tai. Roedd hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 30.6%. Gwelwyd tueddiad cynyddol dros y chwe blynedd diwethaf ac mae ein lefelau wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn.

Yn ystod 2021, dosbarthwyd 29,444 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn byw mewn tlodi, sy'n gynnydd o fwy na 6% ers y flwyddyn gynt, sef 27,691. Y diffiniad o dlodi yw pan mae "incwm aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain" (yn 2021 llai nac £19,642).

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 fod 11% o'r aelwydydd oedd yn rhan o'r arolwg yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu dosbarthu'n rhai oedd yn byw mewn amddifadedd materol.

Testun pryder hefyd yw gweld data Adroddiad Tueddiadau i'r Dyfodol hyd at 2020 sy'n dangos fod cyfradd tlodi mewn aelwydydd, lle y mae pob oedolyn oed gwaith yn gweithio, wedi cynyddu. Mae hyn yn dangos tuedd bryderus, sef nad yw bod mewn gwaith o reidrwydd yn tynnu aelwydydd allan o dlodi.

Mae tlodi ac amddifadedd yn creu effeithiau andwyol difrifol, sy'n effeithio ar bob agwedd o lesiant. Mae'n cyfyngu cyfleoedd a rhagolygon plant a phobl ifanc ac mae'n niweidio ansawdd bywyd i bawb. Mae tlodi yn rhy aml yn brofiad sy'n pontio cenedlaethau sy'n creu bygythiad arwyddocaol i allu mwynhau llesiant cadarnhaol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfartaledd pob grŵp oed yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn dangos fod 22% o oedolion oed gwaith yng Nghymru (2017-2020) yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ganran hon yn aros yn sefydlog yng Nghymru ond mae'n dal yn uwch na'r un yng ngwledydd eraill Prydain. Wrth i brisiau bwyd, biliau ynni a chostau cyffredinol barhau i godi ar draws gwledydd

Prydain mae'n mynd yn anoddach i aelwydydd aros uwchlaw'r llinell dlodi. Gwaethygir hyn gan y ffaith nad yw cyflogau'n codi i dalu am y costau ychwanegol. Golyga hynny fod mwy o aelwydydd mewn gwaith yn profi tlodi.

Amcangyfrifir fod tua 196,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, a'u bod yn gwario cyfran fawr o'u hincwm teuluol ar gostau tanwydd. Mae hyn yn cyfateb i 14% o aelwydydd yng Nghymru. ('LlC Amcangyfrifon wedi'u modelu o Dlodi Tanwydd Hydref 2021 <https://gov.wales/fuel-poverty-modelled-estimates-wales-headline-results-october-2021-html>)

## Y camau a fwriadwn

- Adnabod a gweithredu cyfleoedd ar gyfer staff sefydliadau'r BGC i Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) a gwella'r trefniadau cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth
- Adeiladu ar wasanaethau cyngor a chefnogaeth i drigolion trwy Hwb y Cyngor, trwy ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws sefydliadau'r BGC
- Datblygu ymhellach yr ymgyrch 'Hawliwch eich Haeddiant' trwy drefn aml-asiantaethol, gyda negeseuon cyson ar gefnogaeth i drigolion
- Adeiladu data byw o ran tlodi tanwydd a hyrwyddo gwelliannau effeithlonrwydd yn y cartref

## Dangosyddion Cenedlaethol

- Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol (NWBI 16)
- Gwahaniaeth cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd (NWBI 17)
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn (NWBI 18)
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol (NWBI 19)
- Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth (NWBI 21)
- Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (NWBI 22)
- Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (NWBI 34)
- Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau mewn perthynas â thai (NWBI 49)

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

- Dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050

# 5 \ Helpu creu cymunedau diogel, amrywiol a dwyieithog

## Ein gweledigaeth fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol, sy'n rhoi pwys ar gyd-dynnu, cydlyniant a goddefgarwch. Byddwn yn sicrhau bod ein trigolion a chymunedau yn teimlo'n ddiogel ac y gallant leisio eu pryderon yn lleol.

Bydd ein cymunedau yn dathlu pwysigrwydd y Gymraeg ynghyd ân hamrywiaeth ddiwylliannol a demograffaidd gyfoethog.

## Pum Ffordd o Weithio

5 WAYS

Rhan allweddol o lwyddo i gymryd y camau hyn yn y Cynllun Llesiant yw ymglymiad.

Mae ein camau yn galw ar bartneriaid i gynnwys ein dinasyddion yn y gwaith o'u helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu â'u cymunedau lleol. Dim ond trwy wrando ar ein cymunedau, clywed beth yw eu pryderon, beth maen nhw ei angen a beth sy'n bwysig iddyn nhw, allwn ni eu cefnogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w llesiant a'u hymdeimlad o berthyn.

Bydd gweithio ar y cyd yn cael ei ddatblygu er mwyn cryfhau cysylltiadau gyda'n partneriaid i gefnogi ein cymunedau lleol i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu a gwasanaethau newydd.

## Tystiolaeth o'n Hasesiad Llesiant

Yn Sir Gaerfyrddin roedd 2,779 o ddioddefwyr trais yn y cartref rhwng y 1af Tachwedd 2020 a'r 31ain Hydref 2021.

Mae'r ffigyrau troseddu a adroddwyd yn ddigon tebyg i rai'r flwyddyn gynt, er bod cynnydd arwyddocaol yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol ers y pandemig. Mae hyn yn cynnwys ffocws trwm ar gymorth yn y gymuned a chefnogaeth i blant a phobl ifanc. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol trwy gydol y pandemig ac nid oes unrhyw argoel eu bod yn arafu.

O ran canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch, mae ffigyrau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos mai'r ganran oedd yn teimlo'n ddiogel oedd 76.1%, sy'n 7fed o'r 22 Awdurdod Lleol.

Mae ymatebion o'r arolwg Llesiant yn dangos mai pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref ac yn eu cymuned oedd y pethau pwysicaf i bobl am fyw yn eu cymunedau.

Er y bu'r twf mewn cyfathrebu digidol yn nodwedd gadarnhaol i lawer yn ystod y pandemig, mae'r newid hwn wedi gwneud i rai pobl hŷn deimlo'n fwy ynysig. Dywed Age-friendly Cities Guide Sefydliad Iechyd y Byd: "No matter how developed the city; word of mouth is the principal and preferred means of communication for older people". Mae llawer o bobl hŷn yn gwerthfawrogi cyfathrebu personol sy'n tueddu cael ei ddiystyried yn yr oes ddigidol. Mae cyfathrebu llafar yn arbennig o bwysig i bobl ag amhariadau gweld neu lefelau llythrennedd isel.

Mae ein cenhedlaeth hŷn yn cynnig cyfoeth o wybodaeth, arbenigedd a phrofiad. Mae eu sgiliau a'u profiadau bywyd yn rhinweddau o bwys y gallant eu rhannu â chymdeithas. Gall rhannu eu gwybodaeth a'u profiad greu cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau rhwng y cenedlaethau, gan adeiladu cydlyniant cymunedol yn ogystal â gwella llesiant emosiynol a chymdeithasol pobl hŷn all fel arall deimlo'n ynysig a heb eu gwerthfawrogi gan gymdeithas.

Ar hyn o bryd, mae gan Sir Gaerfyrddin 33.7% o oedolion sy'n gwirfoddoli.  Yn ystod y  pandemig daeth rhai o'r cyfleoedd i wirfoddoli yn fwy heriol, gan adael rhai pobl hŷn heb ran werthfawr a chymdeithasol o'u bywydau. Mae pobl hŷn sy'n gwirfoddoli yn llai tebygol o deimlo unigrwydd ac mae cymunedau sy'n cynnwys lefel uchel o weithgarwch gwirfoddol yn dangos cydlyniant cymunedol da.

Mae tanau gwyllt a thanau awyr agored yn parhau i fod yn broblem a'r ardaloedd a effeithir fwyaf yn ein sir gan danau gwyllt bwriadol yw: Brynaman, Y Garnant a Glanaman, De Llanelli a Bynie a Llwynhendy. Bu nifer y tanau gwyllt yn ein sir yn weddol sefydlog dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae llosgi bwriadol yn creu cryn ddifrod i'r amgylchedd, gan gynnwys effeithio ansawdd dŵr ac awyr a difrodi neu ddinistrio cynefinoedd, planhigion bregus, bywyd gwyllt a phori.

Canfu Cyfrifiad 2011, sef yr unig ffynhonnell sy'n rhoi ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan, y gall 43.9% (78,000) o'n

trigolion siarad Cymraeg. Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'n harolygon, roedd yn ddiddorol nodi fod ymatebwyr oedd wedi dweud mai eu hiaith gyntaf oedd Saesneg, hefyd yn meddu ar sgiliau amrywiol yn y Gymraeg. O'u plith, gallai 21% siarad Cymraeg, gallai 41% ddeall Cymraeg, gallai 18% ddarllen Cymraeg a gallai 13% ysgrifennu Cymraeg. Byddai dros 53% o ymatebwyr yn ystyried dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg a byddai 24% yn cefnogi eu plant trwy addysg cyfrwng Cymraeg.

## Y camau a fwriadwn:

- Paratoi Strategaeth Wirfoddoli Sir Gaerfyrddin
- Asesu trefniadau cyfredol a pharatoi cynllun aml-asiantaethol ar gyfer datblygu cydnerthedd cymunedol ymhellach
- Cefnogi gweithredu, datblygu ymhellach a monitro Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

## Dangosyddion Cenedlaethol

- Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (NWBI 23)
- Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt (NWBI 24)
- Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio (NWBI 25)
- Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw (NWBI 26)
- Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (NWBI 27)
- Canran y bobl sy'n gwirfoddoli (NWBI 28)
- Canran y bobl sy'n unig (NWBI 30)
- Canran yr anheddau sydd heb beryglon (NWBI 31)
- Canran y bobl sy'n bresennol neu sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn (NWBI 35)
- Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o'r iaith (NWBI 36)
- Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (NWBI 37)
- Canran yr amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU (NWBI 39)

- Canran yr asedau amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well (NWBI 40)
- Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru (NWBI 46)
- Canran y bobl sydd â hyder yn y system gyfiawnder (NWBI 47)
- Statws cynhwysiant digidol (NWBI 50)

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

- Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050



# Camau Nesaf

## Sefydlu'r strwythur cyflawni

Mae cyhoeddi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant diwygiedig yn rhoi cyfle amserol i'r BGC adolygu ein strwythur cyflawni i sicrhau ei fod yn cefnogi ein gwaith a'i fod yn gweddu i'w bwrpas.

Bernir y gellid gwneud gwelliant i strwythur presennol y Grwpiau Cyflawni presennol trwy greu ffordd o weithio'n debycach i grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn cymryd y camau a nodir ar dudalennau 11-13. Byddai'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn datblygu cynlluniau gweithredu manwl yn seiliedig ar gamau SMART ac yn asesu sut fyddai'r Ffyrdd o Weithio yn cael eu cymhwyso i waith partneriaeth wrth edrych i'r dyfodol.

Mae'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel (SCP) yn grŵp statudol, aml-asiantaethol sydd wedi hen ennill ei blwyf sy'n cyfarfod yn chwarterol ac sy'n gwbl gydnaws ag amcanion dau grŵp sirol arall sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol – Bwrdd CONTEST (atal terfysgaeth) a'r Bwrdd Trais Difrifol a Throseddu wedi'i Drefnu.

## Datblygu'r cynlluniau cyflawni

Mae datblygu ein cynlluniau cyflawni yn gyfle amserol i gynnwys ein pobl a'n cymunedau yn y gwaith o gyd-gynhyrchu a blaenoriaethu ein meysydd gweithredu.

Trwy'r gwaith hwn, gallwn sicrhau ein bod yn gosod amserlenni realistig ar gyfer datblygu a chyflawni. Bydd hyn yn gadael digon o amser i gynnwys y bobl iawn ac ystyried y pethau iawn i'w gwneud i gyflawni'r hyn rydym ei eisiau.

## Ymglymiad parhaus a Chyd-gynhyrchu

Mae ymglymiad parhaus yn faes gwaith hollbwysig inni fel BGC yn y cylch nesaf hwn.

Mae ein cydweithwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu 'Fframwaith Ymgysylltu Parhaus' a bwriadwn adeiladu ar y gwaith hwn i sicrhau ein bod yn cynnwys a chydweithio trwy gydol oes y Cynllun hwn a bod tystiolaeth o ymgysylltu, profiadau bywyd a'r ymyriadau rydym wedi'u trefnu ar gael ar gyfer ein Hasesiad Llesiant nesaf.

Fel clwstwr o BGCau (Sir Gaerfyrddin Ceredigion, a Sir Benfro), rydym yn ffodus o fod yn gweithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i greu ymgysylltiad ystyrlon â phobl a chynnull grwpiau amrywiol o unigolion at ei gilydd i gyd-gynhyrchu atebion i broblemau lleol.

Yn ein Hasesiad Llesiant, rydym wedi dod o hyd i leisiau nas clywir yn aml nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o'n gwaith, a thros gyfnod y Cynllun Llesiant hwn byddwn yn cydweithio ag eraill i adeiladu perthnasoedd a chyfleoedd ymgysylltu ystyrlon.

## Cynyddu ymwybyddiaeth o'r BGC a'i waith

Fel BGC, rydym yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a'n strwythurau ar draws pob sector.

Wrth gyhoeddi ein Hasesiad Llesiant a'n Cynllun Llesiant byddwn yn sicrhau y rhoddir adborth i bawb sydd wedi cyfrannu i'n gwaith a'n bod yn danfon diweddariadau rheolaidd ar y camau a gymerwyd.

Gyda chydweithwyr yn y clwstwr, byddwn hefyd yn datblygu cyfres o fideos profiadau bywyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo ein Cynllun.

Byddwn yn adeiladu'r cynnwys ar wefan y BGC, gan roi cyfleoedd i'n pobl a chymunedau i fod yn rhan o'r gwaith ac i gydweithio â ni ar faterion allweddol. Bydd hygyrchedd yn nodwedd hollbwysig a byddwn yn ceisio datblygu cyfres o offerynnau i hyrwyddo ein gwaith.

## Monitro a gwerthuso

Mae angen inni wybod a yw'r hyn rydym yn ei wneud yn gwneud y gwahaniaethau rydym eu heisiau.

Bydd y BGC yn creu ffordd dryloyw o asesu effeithiolrwydd ein camau llesiant wrth gyflawni ein hamcanion llesiant fel y gall pawb weld fod camau ymlaen yn cael eu cymryd.

